

Trawsgwricwlaidd
5 i 7

# Hudo pryfed genwair

- Ymchwiliadau Pryfed Genwair

## Trosolwg

Mae pryfed genwair yn ymateb i ddirgryniadau sain drwy ddod i'r wyneb. Felly, drwy guro neu stampio ar yr un darn o dir, byddwch yn annog pryfed genwair i ymddangos.

## Offer

- Darn o laswellt
- Rhaffau, llinyn neu ffyn bambŵ i farcio eich plotiau
- Cynwysyddion o bridd llaith i bob tîm hudo pryfed genwair

## Gweithgaredd

1. Gosodwch blotiau unigol cyfartal o ran maint ar gyfer pob tîm.
2. Heriwch y disgyblion i ddod o hyd i gymaint o bryfed genwair â phosib mewn 5 munud drwy dapio eu traed ar y ddaear ac aros i'r pryfed genwair ymddangos.
3. Storiwch y pryfed genwair yn ddiogel mewn cynwysyddion bach o bridd llaith ar ôl iddyn nhw gael eu hudo.
4. Defnyddiwch siartiau adnabod i adnabod y rhywogaethau o bryfed genwair sydd wedi dod i'r golwg.
5. Cyfrwch bob casgliad ar y diwedd i ddatgan yr enillydd.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae 27 o rywogaethau brodorol o bryfed genwair yn y DU, a dyna pam y gwelwch chi adar yn tapio eu traed ac yn aros am bryd blasus!

## Canlyniadau posibl i ddangos y dysgu

| Maes pwnc | Cysylltiadau a awgrymir â'r cwricwlwm | Allbynnau posibl i ddangos y dysgu |
|---|---|---|
| Ysgrifennu | Ysgrifennu ffuglennol | Diwrnod ym mywyd pryf genwair |
| | Testun cyfarwyddiadol | Canllaw i hudo pryfed genwair |
| | Iaith ddisgrifiadol | Ysgogiad ar gyfer barddoniaeth neu ysgrifennu disgrifiadol – sut mae pryfed genwair yn symud, yn edrych, yn teimlo ac ati |
| | | Dolen i lyfrau fel 'Super Worm' |
| Gwyddoniaeth | Dosbarthiad | Gwneud eich siartiau adnabod pryfed genwair eich hun |
| | Rhagfynegi | Rhagfynegi ble mae dod o hyd i'r rhan fwyaf o bryfed genwair a pham |
| | Profion teg ac arolygon | Cwblhau hudo pryfed genwair fel arbrawf ysgrifenedig llawn |
| Mathemateg | Nifer | Cyfrif nifer y pryfed genwair ddaethoch chi o hyd iddyn nhw |
| | Trin data | Canfod cyfartaleddau a'r ystod o ddata a gasglwyd |
| | | Creu graffiau a siartiau i ddangos y data a gafwyd |
| Cerddoriaeth | Rhythmau a phatrymau | Ailadrodd neu gyfansoddi patrymau dirgrynu gwahanol |
| | | Defnyddio offerynnau gwahanol neu rannau o'r corff i wneud synau |
| Celf a dylunio | Defnyddio amrywiaeth o dechnegau artistig | Braslunio neu fodelu pryfed genwair yn fanwl |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890